

# Chwarae

Rhifyn 45 Hydref 2015

Newyddion chwarae a gwybodaeth gan  
yr elusen genedlaethol dros chwarae

# dros Gymru



## Dathlu chwarae yng Nghymru



# Cynnwys

2	Golygyddol	16	Adnodd gwerthfawr
3-5	Newyddion	17	Lleisiau bach yn galw allan
6-7	Maniffesto ar gyfer chwarae plant yng Nghymru	18-19	Cymru – gwlad chwarae-gyfeillgar
8-11	Amser, lle a chaniatâd i chwarae ledled Cymru	20-21	Datblygu'r gweithlu
12-13	Cefnogi Cymru chwarae-gyfeillgar	22	Ysbryd 2015: pwysigrwydd cymryd risgiau
14-15	Amser chwarae cyn yr etholiad		

## Diolch yn fawr

Diolch o galon i bawb a gyfrannodd at y cylchgrawn hwn – allen ni ddim ei wneud heboch chi. Mae'r rhifyn hwn o *Chwarae dros Gymru*, yn ogystal â rhifynnau blaenorol, ar gael i'w lawrlwytho o [www.chwaraecymru.org.uk](http://www.chwaraecymru.org.uk)

# Golygyddol

Mae'r rhifyn hwn o *Chwarae dros Gymru* yn canolbwyntio ar etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru, fydd yn digwydd ym mis Mai 2016.

Rydym wedi rhannu ein *Maniffesto ar gyfer chwarae plant yng Nghymru* gyda phrif bleidiau gwleidyddol Cymru, ac rydym ni'n gobeithio eu bod wedi ei gael yn ddefnyddiol wrth ddatblygu eu blaenoriaethau a'u hagenda eu hunain ar gyfer Cymru. Mae ganddo'r potensial, yn ei ffordd fechan ei hun, i ddylanwadu ar gamau gweithredu llywodraeth nesaf Cymru.

Ceir copi o'r Maniffesto ar dudalennau 6 a 7 o'r rhifyn hwn. Mae wedi'i seilio ar y corff cynyddol o dystiolaeth gadarn sy'n cefnogi manteision tymor hir darparu ar gyfer chwarae plant.

Bydd yr etholiad yn gyfle i bob un ohonom amlygu'r hyn yr ydym ni'n gofyn amdano ar gyfer chwarae yng Nghymru. Gall y Maniffesto

ein helpu i lunio cwestiynau i'w gofyn i wleidyddion wrth iddyn nhw ddechrau ymgyrchu'n lleol yn y paratodau ar gyfer yr etholiad.

Yn y rhifyn hwn o *Chwarae dros Gymru* rydym wedi amlygu rhai enghreifftiau o'r dulliau gwaith arloesol ac ymarferol mae hyrwyddwyr chwarae yn eu defnyddio i gefnogi chwarae ac i ymdrin â rhai o'r rhwystrau mae plant yn eu hwynebu wrth chwarae yn eu cymunedau.

Cymru yw'r wlad gyntaf yn y byd i ddeddfu ym maes chwarae ac, ers datganoli, mae chwarae plant wedi cael ei gydnabod a'i gefnogi ar draws y pleidiau. Datblygwyd yr ymrwymiad i wella cyfleoedd chwarae i bob plentyn trwy Adran 11 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010.

Mae hyn yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i asesu a sicrhau digonolrwydd cyfleoedd chwarae i blant yn eu hardaloedd bob tair blynedd. Bydd awdurdodau lleol yng Nghymru yn cyflwyno Aseidiadau Digonolrwydd Chwarae am yr eildro ym mis Mawrth 2016. Dyma gyfle awdurdodau lleol i ddangos y cynnydd maen nhw'n ei wneud gyda phartneriaid i

sicrhau bod eu siroedd yn creu mwy o gyfle i chwarae i'r plant sy'n byw ac yn chwarae yno.

Ar 5 Awst 2015 daeth miloedd o blant a phobl ifanc ledled Cymru ynghyd mewn digwyddiadau chwarae lleol a rhanbarthol i ddatlu Diwrnod Chwarae – y diwrnod cenedlaethol ar gyfer chwarae. Amlygodd ymgyrch Diwrnod Chwarae 2015 bwysigrwydd chwarae i iechyd meddwl plant, a'r nod oedd annog plant i 'Chwarae mwy...', cefnogi rhieni i ganiatáu i'w plant 'Chwarae mwy...' ac ysbrydoli cymunedau i ddod at ei gilydd i gefnogi hawl plant i chwarae.

Mae ein Maniffesto yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i barhau i roi blaenoriaeth i ddarpariaeth chwarae trwy gefnogi mentrau sy'n helpu plant i 'chwarae mwy'. Pan fydd darpar Aelodau Cynulliad yn dod i gysylltiad â ni, gall pob un ohonom ddefnyddio'r cyfle i ofyn iddyn nhw beth maen nhw'n mynd i'w wneud dros chwarae plant.

**Mike Greenaway**  
Cyfarwyddwr, Chwarae Cymru



# Newyddion

## Ydy hawliau plant yn cael eu gwireddu yng Nghymru?

Mae 'Grŵp Monitro CCUHP Cymru' yn gynghrair genedlaethol o gyrff anllwydraethol (NGOs) ac asiantaethau academaidd, sy'n gyfrifol am fonitro a hyrwyddo Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yng Nghymru. Yn gynnar ym mis Gorffennaf 2015, cyhoeddodd a chyflwynodd ei adroddiad i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.



Paratowyd yr adroddiad ar gyfer Pumed Adroddiad Cyfnodol y Deyrnas Unedig o dan CCUHP, ac mae'n cyfleu persbectif 'Grŵp Monitro CCUHP Cymru' o ran i ba raddau mae'r gyfraith, polisi ac ymarfer yng Nghymru wedi symud ymlaen ers i Bwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn ryddhau ei Sylwadau Terfynol ar y Deyrnas Unedig yn 2008 i Lywodraeth y Deyrnas Unedig.

Er bod argymhellion yr adroddiad wedi'u bwriadu ar gyfer Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas

Unedig, mae'r materion a godir yn uniongyrchol berthnasol i'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan holl awdurdodau lleol Cymru. Ei nod yw helpu awdurdodau lleol i ddatblygu gwasanaethau sy'n diwallu'r anghenion o ran cyflawni hawliau plant yn eu hardaloedd.

Mae pennod chwech o'r adroddiad yn cynnwys adran ar chwarae, a luniwyd gan Gyfarwyddwr Cynorthwyol Chwarae Cymru, Marianne Mannello, ac mae'n darparu diweddariad cynnydd o ran polisi a deddfwriaeth, materion sy'n destun pryder ac argymhellion allweddol i Lywodraeth Cymru.

<http://www.chwaraecymru.org.uk/cym/adroddiadngo>

## Aelod newydd o'r tîm

Ym mis Mawrth 2015 penodwyd Martin King-Sheard yn Swyddog newydd Datblygu'r Gweithlu Chwarae Cymru. Martin sy'n bennaf gyfrifol am ddatblygiadau polisi a strategol sy'n ymwneud â dysgu a datblygiad proffesiynol y gweithlu chwarae a gwaith chwarae yng Nghymru.

Mae wedi ei leoli yng Ngogledd Cymru, ac mae'n gweithio i Chwarae Cymru ers 2006, yn gyntaf fel rhan o'n contract gyda rhaglen Chwarae Plant y Loteri FAWR, ac yn fwy diweddar ar secondiad i Gyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy (CVSC), yn Brif Swyddog Chwarae i Gonwy rhwng 2009 a 2014.

Yn dilyn cyfnod fel ymarferydd syrcas cychwynnodd ei yrfa gwaith chwarae yn 2002, fel gweithiwr datblygu chwarae yn Nottingham.

## Ymddiriedolwr newydd i Chwarae Cymru

Rydym wrth ein bodd yn croesawu Keith Towler, a fu gynt yn Gomisiynydd Plant Cymru, i Fwrdd Ymddiriedolwyr Chwarae Cymru.

Gan ei bod yn elusen, mae Chwarae Cymru yn cael ei

llywodraethu gan Fwrdd Ymddiriedolwyr sy'n goruchwyllo gweithrediad Chwarae Cymru er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni ein hamcanion yn effeithiol ac yn effeithlon o fewn y gyfraith. Ceir hefyd nifer o Sylwedyddion i'r Bwrdd, sy'n cynorthwyo'r Ymddiriedolwyr, ond sydd heb bleidlais.



Mwy o wybodaeth am y Bwrdd: [www.chwaraecymru.org.uk/cym/llywodraethu](http://www.chwaraecymru.org.uk/cym/llywodraethu)

# Datganiad ar Bwysigrwydd Chwarae

Mae'r Gymdeithas Chwarae Ryngwladol (IPA) wedi cyhoeddi *Datganiad ar Bwysigrwydd Chwarae* sy'n ategu nod gwladwriaethau'r IPA a'u bwriad i amddiffyn, cadw a hybu'r hawl i chwarae.



Seiliwyd y Datganiad ar y dystiolaeth sylweddol sydd wedi codi yn ystod yr ugain mlynedd diwethaf, sy'n dangos pa mor hanfodol a hollbwysig yw chwarae i blant, ac yn sgîl hynny i'r gymdeithas. Mae hefyd yn amlygu'r dystiolaeth gynyddol ynghylch effeithiau diffyg amser a lle ar gyfer chwarae, ac effeithiau difrifol hynny ar gyrff a meddyliau plant gydol eu hoes.

## Meddai Theresa Casey, Llywydd yr IPA:

*'Ni fu erioed yn bwysicach ailddatgan pwysigrwydd chwarae. Hanfodol, sylfaenol, hollbwysig – mae'r geiriau yn y Datganiad hwn yn adlewyrchu neges aelodau'r IPA i'r byd, sef bod chwarae yn rhan hanfodol o blentynod. Mae gan bob plentyn hawl i brofi chwarae sy'n ... rhydd, yn agored, heb ffiniau, weithiau'n ddi-drefn, weithiau'n drawsffurfiannol. Mae chwarae'n hawl y mae dyletswydd ar bob oedolyn i'w chynnal.'*

<http://ipaworld.org/ipa-declaration-on-the-importance-of-play>

## Dyma fi / This is me

Mae ffilm fer yr IPA *Dyma fi / This is me* bellach ar gael mewn nifer o ieithoedd, gan gynnwys y Gymraeg, a gellir ei gweld yn: [www.chwaraecymru.org.uk/cym/hawlichwarae](http://www.chwaraecymru.org.uk/cym/hawlichwarae)

Mae'r fersiwn Saesneg ar gael yn: [www.playwales.org.uk/eng/rightoplay](http://www.playwales.org.uk/eng/rightoplay)

## Cyhoeddiadau newydd Chwarae Cymru

Datblygwyd *Canllaw arfer dda ar gyfer darpariaeth chwarae a'r blynyddoedd cynnar: Datblygu a rheoli safleoedd Sipsiwn a Theithwyr* gan Chwarae Cymru, yn gweithio mewn partneriaeth â phrosiect Y Daith Ymlaen, Achub y Plant.

Mae wedi ei ddylunio i ddarparu gwybodaeth clir a chryno er mwyn cefnogi awdurdodau lleol i ystyried a chynnwys darpariaeth chwarae a'r blynyddoedd cynnar tra'n datblygu safleoedd Sipsiwn a Theithwyr newydd, a rhai sy'n bodoli eisoes. Mae'n cynnwys gwybodaeth neilltuoled a fwriedir i'n helpu i ddeall a mynd i'r afael â meysydd penodol sy'n peri pryder. Mae hefyd yn darparu offer ymarferol, cam-wrth-gam, templedi a modelau o ddarpariaeth llwyddiannus. **Am adolygiad o'r cyhoeddiad hwn gweler tudalen 16.**

### Rydym hefyd wedi cyhoeddi nifer o daflenni gwybodaeth newydd yn ddiweddar, gan gynnwys:

*Pam mae chwarae'n bwysig a'r hyn y gall pob un ohonom ei wneud yn ei gylch* (cyhoeddwyd mewn partneriaeth â Cadw).

Wedi ei hanelu at rieni a gofawlyr mae'r daflen wybodaeth hon yn edrych ar bwysigrwydd chwarae y tu allan a dod i gysylltiad â byd natur i bob plentyn a'u teuluoedd, ac mae'n cynnwys awgrymiadau ar gyfer cefnogi plant i chwarae'n hyderus y tu allan.

*Yr Egwyddorion Gwaith Chwarae – arolwg.* Nod y daflen wybodaeth hon yw cynnig trosolwg o'r Egwyddorion Gwaith Chwarae sy'n sefydlu'r fframwaith proffesiynol a moesegol ar gyfer gwaith chwarae. Yn ogystal â disgrifio datblygiad yr Egwyddorion Gwaith Chwarae mae hefyd yn fras, yn archwilio etheg a gwaith chwarae.

**Mae'r canllaw arfer dda, taflenni gwybodaeth a rhagor o gyhoeddiadau ar gael i'w lawrlwytho ar: [www.chwaraecymru.org.uk/cym/cyhoeddiadau](http://www.chwaraecymru.org.uk/cym/cyhoeddiadau)**

## Cyfryngau Cymdeithasol



[www.facebook.com/ChwaraeCymru](http://www.facebook.com/ChwaraeCymru)



[www.twitter.com/ChwaraeCymru](http://www.twitter.com/ChwaraeCymru)



# Creu Cymru chwarae-gyfeillgar



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Er mwyn sicrhau bod Cymru'n wlad sy'n creu cyfle i chwarae a darparu cyfleoedd rhagorol i'n plant chwarae, mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod bod angen yn ogystal i awdurdodau lleol, eu partneriaid a rhanddeiliaid eraill weithio tuag at hynny. O ganlyniad, cynhwyswyd adran Cyfleoedd Chwarae ym Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010.

Mae Adran 11 o'r Mesur yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i asesu a sicrhau cyfleoedd chwarae digonol i blant yn eu hardal.

Er mwyn cydymffurfio â'u dyletswyddau newydd, cyflwynodd pob awdurdod lleol yng Nghymru eu Hasesiadau Digonolrwydd Chwarae a'u Cynlluniau Gweithredu Chwarae cyntaf i Weinidogion Llywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2013. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi amserlen ar gyfer asesu a sicrhau cyfleoedd chwarae digonol

yn ystod y 10 mlynedd nesaf.

Ym mis Mawrth 2016, bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol gwblhau a chyflwyno eu hail Asesiad Digonolrwydd Chwarae; Crynodeb Gweithredol o'r Asesiad Digonolrwydd Chwarae; a Chynllun Gweithredu Chwarae ar gyfer y flwyddyn ganlynol i Weinidogion Llywodraeth Cymru.

Ar ben hynny, dylai Crynodebau Gweithredol yr Asesiadau Digonolrwydd Chwarae gael

eu cyhoeddi ar wefannau'r awdurdodau lleol. Rhaid i'r crynodebau a gyhoeddir gynnwys canlyniadau'r Asesiadau Digonolrwydd Chwarae ac amlygu'r camau gweithredu y mae'r awdurdodau lleol yn bwriadu eu cymryd i gyflawni cyfleoedd chwarae digonol. Rhaid datblygu Cynlluniau Gweithredu Chwarae a'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru bob blwyddyn.

[www.chwaraecymru.org.uk/cym/digonolrwydd](http://www.chwaraecymru.org.uk/cym/digonolrwydd)

## Diwrnod Chwarae 2015



Ar 5 Awst amcangyfrifir bod 100,000 o blant ac oedolion wedi dathlu Diwrnod Chwarae 2015 – y diwrnod chwarae cenedlaethol – mewn mwy na 200 o ddigwyddiadau ar draws y Deyrnas Unedig.

Mae'r Diwrnod Chwarae yn llwyfan i hyrwyddwyr chwarae dynnu sylw at fanteision ac effaith gadarnhaol chwarae ar iechyd meddyliol a chorfforol plant, eu lles a'u datblygiad.

Mae hefyd yn gyfle delfrydol i gymunedau ddod ynghyd i ddathlu, chwarae a chael hwyl. Mewn digwyddiad Diwrnod Chwarae ym Mharc Tredegar, a drefnwyd gan dîm datblygu chwarae Casnewydd, ymunodd Prif Weithredwr y Cyngor yn yr hwyl.

**Meddai Will Godfrey,**  
**Prif Weithredwr Cyngor**  
**Dinas Casnewydd:**

*'Mae cefnogi'r Diwrnod Chwarae cenedlaethol yn adlewyrchu cenhadaeth y Cyngor – gwella bywydau ein cymunedau. Roedd yn wych cael profiad uniongyrchol o raddfa'r digwyddiad. Roedd llawer o wahanol weithgareddau, gyda rhywbeth at ddant pawb, ac roedd pawb yn cael hwyl. Mae digwyddiadau fel hwn yn dangos sut gall chwarae ddarparu profiad ansawdd uchel am gost isel. Fy uchafbwynt personol oedd cael trochad gan blentyn wyth oed ar y llithren ddŵr – ond i fod yn deg, roeddwn innau wedi bod yn rhoi socad iddo fe am 30 munud cyn hynny!'*



[www.playday.org.uk](http://www.playday.org.uk)

# Maniffesto ar gyfer chwarae plant yng Nghymru

Mae gan Chwarae Cymru bedwar cais dros chwarae, dros iechyd, dros blant, dros bawb

## Cymru – gwlad chwarae-gyfeillgar

Mae Chwarae Cymru'n galw ar i Lywodraeth nesaf Cymru barhau i flaenoriaethu darparu ar gyfer chwarae. Rydym yn gofyn i bob plaid wleidyddol gydnabod bod

cael amser, rhyddid a manau da ar gyfer chwarae o'r pwys mwyaf i bob' plentyn, eu teuluoedd a'r gymuned ehangach.

Mae chwarae yn cyfrannu at les a gwytnwch pob un ohonom – mae angen inni weithio'n galed i

feithrin amgylcheddau sy'n cefnogi chwarae plant.

Mae pawb yn gwybod bod chwarae'n dda i blant. Ac mae corff cynyddol o dystiolaeth gadarn ynghylch y manteision tymor hir.



## Dengys tystiolaeth o astudiaethau fod prosiectau chwarae<sup>2</sup>:

- yr un mor effeithiol â rhaglenni chwaraeon ac Ymarfer Corff o ran rhoi hwb i lefelau gweithgaredd corfforol ac yn sgîl hynny wrth helpu i fynd i'r afael â seگردod a gordewdra plant
- yn cefnogi plant i ddod yn fwy gwydn trwy ddatblygu eu sgiliau hunanreolaeth emosiynol a chymdeithasol
- yn darparu cyfleoedd grymus i blant ymgysylltu'n gadarnhaol â'u hysgol a'r gymuned ehangach, ac â natur a'r amgylchedd
- yn annog natur gymdogol, gwirfoddoli a gweithredu cymdeithasol, ac yn gwella cydlyniant cymunedol.

Mae angen inni fynd i'r afael â rhwystrau i chwarae; mae hon yn dasg i bob un ohonom, ac yn enwedig i'r llywodraeth. Mae polisïau cynllunio, traffig, tai a mannau agored, ysgolion a gofal plant yn cael effaith uniongyrchol ar gyfleoedd i chwarae.

Mae Llywodraethau Cymru, gyda chefnogaeth yr holl bleidiau, wedi cymryd rôl flaenllaw yn rhyngwladol wrth fabwysiadu Polisi Chwarae ac yn ddiweddarach wrth ddeddfu ar gyfer chwarae plant yng Nghymru; y llywodraeth gyntaf yn y byd i wneud hynny ac mae Cymru yn parhau, yn gwbl gywir, i dderbyn canmoliaeth eang am hyn.

## Mae Chwarae Cymru'n galw ar bob plaid wleidyddol i barhau i gynnal y momentwm yma ac i ystyried y casgliad canlynol o fentrau:

### Mewn ysgolion:

cydnabyddiaeth bod angen chwarae cyn yr ysgol, yn ystod amseroedd chwarae/egwyliau, ac ar ôl oriau ysgol. Gallai mynd i'r afael â'r angen yma olygu cefnogaeth yn ystod amser chwarae, gan gynnwys hyfforddiant a chynyddu ymwybyddiaeth staff ysgolion a rhieni, ochr yn ochr â darparu offer a deunyddiau addas ar gyfer chwarae actif, creadigol.

### Mewn parciau a mannau chwarae cyhoeddus:

cydnabyddiaeth i fuddiannau presenoldeb plant mewn parciau a mannau cyhoeddus. Gallai hyn olygu buddsoddi mewn rhaglen sy'n ffocysu ar gymunedau ac sy'n cynnig hyfforddiant traws-sector ar gyfer y rheini sy'n cynllunio, dylunio, adeiladu a rheoli ein cymunedau. Wedi ei drosglwyddo trwy bartneriaeth o awdurdodau lleol, darparwyr chwarae, a phobl eraill sydd â diddordeb mewn plant mewn cymunedau, bydd mwy ohonom yn deall pwysigrwydd chwarae plant a'n rôl ni wrth greu mannau cyhoeddus sy'n gyfeillgar tuag at blant.

### Mewn cymdogaethau:

cydnabyddiaeth bod plant angen chwarae allan yn eu cymuned. Gallai mynd i'r afael â hyn olygu datblygu sesiynau cau ffyrdd

rheolaidd ar strydoedd preswyl gyda ffocws ychwanegol ar strydoedd o amgylch ysgolion, ac mewn cysylltiad â pholisïau teithio llesol. Hefyd, cefnogi rhieni a thrigolion i greu mannau hwylus i blant trwy leihau'r mân reolau sydd ynghlwm wrth reoliadau traffig, ymgynghori, yswiriant ac ati.

### Mewn gwasanaethau chwarae wedi'u staffio:

cydnabyddiaeth i rôl allweddol oedolion wrth hwyluso chwarae plant. Gallai hyn gynnwys cefnogaeth ar gyfer darpariaeth wedi ei staffio i brofi modelau presgripsiwn cymdeithasol gydag asiantaethau iechyd, trosglwyddo prosiectau chwarae a drefnir yn lleol mewn ardaloedd difreintiedig all gynnal sesiynau syniadau ymarferol ar chwarae actif, creadigol i breswylwyr lleol, er mwyn annog gwirfoddoli, gweithredu cymdeithasol a datblygu cymunedol ar sail asedau.

**Gall llunwyr penderfyniadau fod yn hyderus y bydd buddsoddi yn y gofynion hyn yn arwain at welliannau i iechyd a lles plant, ac yn sgîl hynny at ostwng y pwysau sydd ar y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru a'r pwrs cyhoeddus. Ar ben hynny, lefel gymedrol, gost-effeithiol o fuddsoddi fyddai'n angenrheidiol a byddai hynny'n cefnogi awdurdodau lleol i gydymffurfio â'u dyletswyddau statudol i asesu a sicrhau cyfleoedd chwarae digonol ar gyfer plant yn eu hardaloedd.**



Mae chwarae a ddewisir o wirfodd yn allweddol bwysig i bob plentyn a pherson ifanc fel rhan o'u bywydau bob dydd ac yn eu cymunedau eu hunain. Gallwn i gyd fod yn rhan o wneud Cymru yn fan ble y gall plant elwa o chwarae fel rhan o'u bywyd bob dydd.

## Cyfeiriadau

<sup>1</sup> Pan fyddwn yn sôn am bob plentyn mae hyn yn cynnwys pob plentyn beth bynnag fo'u diwylliant, eu hanabledd, eu rhyw, eu hiaith, eu cefndir, eu hymddygiad neu eu hangen. <sup>2</sup> Gill, T. (2014) *The Play Return: A review of the wider impact of play initiatives*.

# Amser, lle a chaniatâd i chwarae ledled Cymru

Trwy roi amser a chaniatâd i blant gael mynediad at adnoddau ychwanegol, mae llefydd yn cynnig mwy o gyfleoedd, ac mae plant yn gallu defnyddio'u hamgylcheddau lleol mewn ffyrdd mwy amrywiol. Mae gan y mentrau enghreifftiol hyn botensial i'w hannog i chwarae allan yn amlach ac am gyfnodau hwy. Maent hefyd yn fodd i hybu caniatâd i chwarae mewn amrywiaeth o fannau agored. Bydd gweld mwy o blant yn chwarae allan am gyfnod hwy yn gwella canfyddiad pobl o blant yn chwarae, ac yn helpu rhieni i deimlo'n fwy hyderus am ganiatáu i'w plant fynd allan i chwarae.

## Mewn ysgolion

Gan ddefnyddio cyllid o Ymddiriedolaeth Elusennol Stadiwm y Mileniwm, mae Chwarae Cymru wedi gweithio gyda Phrifysgol Fetropolitan Caerdydd (Tîm Astudiaethau Addysg a Phlentyndod Cynnar) i beilotu ein pecyn offer *Defnyddio tiroedd ysgol ar gyfer chwarae y tu allan i oriau addysgu* mewn ysgolion yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg.

Yma mae Ieuan Bleddyn Gardiner, myfyriwr o Brifysgol Fetropolitan Caerdydd, yn sôn am ei ymwneud â'r prosiect.

Pan ges i wybodaeth am y prosiect, roeddwn i'n gwybod bod rhaid i mi fod yn rhan ohono. Oherwydd y prosiect, rydw i bellach yn deall pwysigrwydd chwarae, yn enwedig wrth i blentyn dyfu i fyny. Pan fydd rhywun yn gofyn i mi dynnu ar brofiad chwarae ges i yn y gorffennol, bydda i bob amser yn cofio am fod yn yr awyr agored, ac un o'r pryderon sydd gen i yw nad yw plant yn chwarae tu allan gymaint bellach, ac na fyddan nhw'n cael rhai o'r profiadau ges i.

Fe ges i hyfforddiant gwaith chwarae a darganfod bod y pecyn offer yn cynnwys llawer o wybodaeth ddefnyddiol. Roedd gen i rai pryderon cychwynnol am ddiwrnod cyntaf cyntaf y prosiect,

ond roedd y manylion yn y pecyn, ochr yn ochr â chefnogaeth tîm y prosiect, yn help i chwalu rhai o'r ofnau oedd gen i.

Ar ôl yr hyfforddiant roeddwn i'n teimlo mod i'n gwybod beth oedd cynnwys fy rôl, a'r prosiect ei hun. Newidiodd fy syniad gwreiddiol ynghylch fy rôl ar ôl y diwrnod cyntaf, gan fod llawer o rieni wedi aros ac wedi fy nghefnogi i gynnal y sesiwn chwarae, gan gefnogi eu plant mwy nag roeddwn i wedi rhagweld. Datblygodd fy rôl wrth i'r prosiect wneud cynnydd, ac wrth i'r plant oedd yn mynychu'r sesiynau chwarae ddod i fy nabod i, a minnau hwythau. Fe wnaethon nhw fy ngwahodd i ymuno â'u chwarae, ac fe ges i gyfle i ymgysylltu yn ogystal â chyflawni rôl arsylwi a chefnogi.

Wrth gymryd rhan yn y prosiect yma, fe ddes i'n ymwybodol bod plant wrth eu bodd yn chwarae tu allan, ac y gall y pethau symlaf, y bydd oedolion yn aml yn eu diystyru ac yn eu galw'n sbwriel, fod yn hynod ddiddorol i'w harchwilio a chwarae gyda nhw.

Lle cyfyngedig iawn oedd ar gael yn yr awyr agored i blant chwarae yng nghymuned yr ysgol, ac mewn rhai achosion roedd teuluoedd o chwech o bobl yn byw mewn fflat dwy ystafell wely heb le y tu allan. Yn achos teuluoedd yn y

sefyllfa hon roeddwn i'n teimlo bod y prosiect yn bwysig, gan fod y plant yn gallu chwarae tu allan a llosgi peth o'u hegni ar ôl bod yn yr ysgol drwy'r dydd. Hefyd doedd rhai o'r plant erioed wedi reidio beic ar laswellt, felly roedd y prosiect yn gyfle i blant roi cynnig ar bethau newydd mae pobl yn aml yn eu cymryd yn ganiataol.

Ar ôl siarad â nifer o rieni, fe wnaethon nhw sôn wrtha i sut roedd ymddygiad eu plant wedi gwella pan oedden nhw'n gallu aros a chwarae am awr ar ôl ysgol. Yn aml roedd y plant yn dod o deuluoedd mawr, felly roedd nid yn unig yn gyfle i'r plant losgi egni a chwarae, ond hefyd yn gyfle i'r rhieni ymlacio a gwyllo'u plant yn chwarae, gan wybod eu bod mewn amgylchedd diogel.

Roedd y prosiect yn gyfle i mi ychwanegu at fy mhrofiadau a hybu chwarae mewn ardal lle nad yw chwarae'n aml yn cael ei annog nac yn hygyrch, oherwydd diffyg lle. Wrth weithio ar y prosiect fe ges i weld sut mae plant, rhieni a'r gymuned ehangach yn gallu elwa o brosiectau chwarae.

**Mae pecyn cymorth Chwarae Cymru i ysgolion ar gael i'w lawrlwytho yn: [www.chwaraecymru.org.uk/cym/pecyncymorthysgolion](http://www.chwaraecymru.org.uk/cym/pecyncymorthysgolion)**



# Mewn cymdogaethau

Ers iddyn nhw gael eu cyflwyno fel astudiaeth achos Cymru – Gwlad Chwarae-Gyfeillgar yn rhifyn gwanwyn 2014 o *Chwarae dros Gymru*, mae trigolion Heol Windsor yn y Fenni yn dal i gael eu cefnogi gan Gyngor Sir Fynwy i gau'r ffordd dros dro er mwyn chwarae. Mae cymdogion yn parhau i symud eu ceir o'r stryd mewn cyfres o drefniadau cau'r ffordd sydd wedi golygu bod plant lleol yn chwarae'n agos at eu cartrefi.

Mae plant yn Heol Windsor yn dweud eu bod nhw'n chwarae allan yn amlach, ac yn ôl eu cymdogion mae'r sesiynau chwarae yn y stryd yn gyfle i'r oedolion gwrdd a dod i nabad eu cymdogion yn well.

Mae prosiectau chwarae tebyg ar y strydoedd yn gwella cyfleoedd plant i chwarae ar draws y Deyrnas Unedig. Mae adroddiad gwerthuso ar brosiect Play Streets Hackney yn Llundain yn dangos bod mwy na 1,600 o blant wedi cael cyfle i chwarae allan yn egniol yn y strydoedd a'r stadau lle maen nhw'n byw. Mae prosiect Play Streets yn bartneriaeth

rhwng Cymdeithas Chwarae Hackney a Bwrdd 'Get Healthy' Cyngor Hackney. Mae'r rhieni sy'n gwirfoddoli i ofalu am Play Streets yn sôn am helpu i greu mwy o ymdeimlad o gymuned – fel bod y strydoedd yn teimlo'n fwy cyfeillgar a diogel. Mae'r adroddiad wedi'i baratoi gan yr awdur a'r ymchwilydd Tim Gill.

Yn ystod y cyfnod o 12 mis hyd at fis Medi 2014 bu'r rhaglen yn:

- Cefnogi rhieni i gynnal 380 awr o sesiynau chwarae ar strydoedd ac mewn stadau, mewn 29 o leoliadau, gan gyrraedd tua 1,600 o blant a bron 800 o deuluoedd.
- Galluogi dros 8,100 o oriau plant o weithgaredd corfforol – mae hyn yn cyfateb i 14 dosbarth ychwanegol o wersi Addysg Gorfforol wythnosol yn ystod y tymor.
- Dangos nad yw cau ffyrdd preswyl ar gyfer chwarae ar y stryd – neu strydoedd chwarae – yn cael fawr ddim effaith ar symudiadau traffig; ar gyfartaledd cafodd naw

cerbyd eu dargyfeirio neu eu 'cerdded trwodd' yn ystod sesiwn o ddwy neu dair awr.

- Ehangu'r rhai sy'n manteisio ar y strydoedd chwarae y tu hwnt i batrwm cychwynnol ardaloedd mwy llewyrchus Hackney, i gyrraedd demograffeg letach, gan gynnwys ardaloedd difreintiedig.
- Datgelu consensws cryf ymhlith y trefnwyr ynghylch manteision canfyddedig y cynllun i blant, teuluoedd a chymunedau – yn arbennig o ran rhyngweithio cymdeithasol, ond hefyd fel modd i ehangu rhyddid a dewis plant wrth chwarae.
- Dod â chryn ddiddordeb i'r amlwg gan ysgolion, lleoliadau blynyddoedd cynnar a sefydliadau gwirfoddol a chymunedol yn y syniad o chwarae ar y stryd. Mae tair ysgol a chanolfan blant yn cynnal strydoedd chwarae tymhorol.
- Dangos nad yw cau strydoedd wedi bod yn ddadleuol ymhlith y trigolion.



# Mewn parciau a mannau chwarae cyhoeddus

Mae amrywiol seminarau a gweithdai hyfforddi wedi cael eu cyflwyno ledled Cymru i helpu gweithwyr proffesiynol sy'n cynllunio, yn dylunio, yn adeiladu ac yn rheoli cymunedau, a'r rhai sy'n ymwneud â diogelwch cymunedol, i ddeall pwysigrwydd chwarae plant a'u rôl wrth greu mannau cyhoeddus sy'n hwylus i blant.

Mae'r hyfforddiant hwn wedi dod â rheolwyr sector cyhoeddus a gwirfoddol, heddwision a gweithwyr proffesiynol at ei gilydd. Mae wedi newid ffordd y gweithwyr proffesiynol o feddwl am blant a phobl ifanc; ac wedi eu gwneud yn ganolog i'r broses o gynllunio, dylunio, adeiladu a rheoli mannau cyhoeddus.

Pan gynhaliodd Chwarae Cymru werthusiad allanol o ymgysylltiad RAY Ceredigion â'r gymuned a'i waith yn meithrin capasiti fel rhan o'r prosiect Chwarae Plant a ariannwyd gan y Loteri Fawr, fe wnaethom ni gwrdd â heddwias oedd wedi mynychu hyfforddiant traws-sector, a chynnal cyfweiliad ag e.

Dywedodd fod yr hyfforddiant chwarae wedi rhoi gwell gwybodaeth iddo am bwysigrwydd chwarae a ffyrdd o'i gefnogi, a'i fod e a chydweithiwr o ganlyniad yn helpu mewn sesiwn chwarae (mewn dillad cyffredin). Yn ei farn e roedd hyn wedi atal ei wisg swyddogol rhag bod yn rhwystr ac wedi rhoi cyfle iddo ymgysylltu â'r bobl ifanc mewn ffordd wahanol. Er gwaethaf pryderon ei reolwyr, roedd y dull hwn yn gweithio iddyn nhw, ac fe soniodd am effaith gadarnhaol hyn ar ei berthynas â phlant a phobl ifanc pan ddychwelodd i'w shift yn ei wisg swyddogol.

Mewn rhai rhannau o Gymru, mae awdurdodau lleol yn llythrennol yn 'meddwl y tu allan i'r bocs'



wrth ddarparu adnoddau ar gyfer chwarae. Yng Nghonwy, mae prosiect Bocs Chwarae wedi cael ei greu gan y tîm Datblygu Chwarae sy'n rhan o Gymorth Cymunedol a Gwirfoddol Conwy (CVSC). Cynwysyddion mawr yw'r bocsys, sy'n cael eu rhoi mewn cymuned a'u llenwi ag adnoddau sborion i'r plant chwarae â nhw.

Dewisodd y tim ardal Cymunedau yn Gyntaf i beilota'r defnydd o focs mewn cymuned. Cysylltodd y tîm Datblygu Chwarae â'r Tîm Cymunedol yn yr ardal a mynychu cyfarfodydd cymunedol i gyflwyno syniad y bocs. Yna bu'n gweithio gyda gweithiwr Tîm Cymunedol o gymdeithas tai Cartrefi Conwy i roi'r bocs yn ei le.

Fel rhan o'r gwaith datblygu, bu'r tîm yn rhoi hyfforddiant wedi'i achredu i'r gwirfoddolwyr ac aelodau eraill o'r gymuned oedd â diddordeb, sy'n agor y bocsys ac yn eu clirio.

Ym Mro Morgannwg, mae prosiect Play Stop yn fenter gymunedol sy'n cael ei datblygu i gynyddu cyfranogiad plant mewn chwarae. Datblygwyd Play Stop gan y

tîm datblygu chwarae mewn partneriaeth â Cymunedau yn Gyntaf, datblygu chwaraeon, adran parciau'r Fro, cynghorau tref a chymuned, ysgolion a grwpiau cymunedol, sydd i gyd yn awyddus i gynyddu'r cyfleoedd chwarae i blant yn y Fro.

Mae Bro Morgannwg, fel llawer o gymunedau eraill, yn cynnwys sawl man lle mae plant yn chwarae, megis cul-de-sac, Ardal Chwaraeon Aml-ddefnydd (MUGA), man agored, neu barc. Yn aml diffyg cyfarpar sy'n rhwystro plant rhag creu, adeiladu, profi, dychmygu a llunio.

Bin ar olwynion yw'r Play Stop, wedi'i lenwi ag eitemau rhydd fel tiwbiau, rhwydi, rhaffau, deunydd a tharpolin. Mae'r biniau'n cael eu lleoli mewn cymunedau sydd wedi ymddiddori mewn cefnogi chwarae plant ac sy'n barod i dderbyn cyfrifoldeb am fynd â'r bin i mewn ac allan ar adegau penodol o'r dydd. Gallai hyn olygu ysgol, adeilad cymunedol, llyfrgell neu siop sy'n agos at y man lle mae plant yn chwarae.

Ar Ynys Môn, mae aelodau o'r gymuned yn Llangoed wedi cydweithio'n agos â'r cyngor sir i reoli pod chwarae yn eu man agored lleol. Cynhwysydd storio yw'r pod chwarae sydd wedi'i lenwi ag amrywiaeth o gyfarpar wedi ymgais lwyddiannus i godi arian gan wirfoddolwyr yn y gymuned.

Yn sgîl y prosiect mae amser chwarae yn yr ardal wedi ehangu, ac mae plant yn sôn bod ganddynt fwy o amser i chwarae gyda'u ffrindiau. Mae hefyd wedi cefnogi aelodau o bob oed i chwarae rhan a themlo eu bod yn rhan o'u cymuned.

**Mae rhagor o wybodaeth am brosiect Llangoed yn y ffilm fer hon: <https://vimeo.com/123095228>**



# Mewn gwasanaethau chwarae sydd â staff



Mae Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn defnyddio Adroddiad Blynyddol 2014, *Plant a Phobl Ifanc yw ein Dyfodol: Dull yn seiliedig ar Asedau*, i drafod y manteision iechyd pwysig a ddaw yn sgîl chwarae. Mae'r adroddiad yn nodi bod y gymuned y mae plant a phobl ifanc yn byw, yn chwarae ac yn rhyngweithio ynddi yn ased pwysig.

I ddarparu tystiolaeth ynghylch ei honiad bod plant yn profi ystod o emosiynau, gan gynnwys rhwystredigaeth a siom, wrth chwarae, a'u bod trwy ymarfer yn gallu dysgu meistroli'r teimladau hynny, mae'r adroddiad yn cynnwys astudiaeth achos o Wrecsam sy'n amlgy cyfraniad darpariaeth sydd â staff:

'Mae Cyngor Bwrdeistref Wrecsam wedi cefnogi agweddau at chwarae plant sydd wedi denu sylw cenedlaethol a rhyngwladol am eu hymrwymiad i ddarparu cyfleoedd i blant chwarae'n rhydd y tu allan, gyda chyn lleied â phosib o ymyrraeth gan oedolion. Mae llawer o'r sylw wedi troi o gwmpas "The Land", man chwarae antur y cyfeirir ato fel "lle llawn posibiliadau". Yn lle'r cyfarpar chwarae arferol, mae deunyddiau i blant fedru llunio ac arbrofi gyda'u manau chwarae eu hunain, gan gynnwys dysgu cymryd risgiau sydd wedi'u pwysu a'u mesur. Mae tri gweithiwr chwarae bob amser ar y safle, i fod yn gynorthwywyr ac yn athrawon. Fodd bynnag, un elfen yn unig yw "The Land" mewn dull systematig ehangach o sicrhau bod yr ystadau tai o amgylch yn creu amgylchedd sy'n cefnogi chwarae. Dywedodd un o aelodau'r tîm wrth bapur newydd *The Guardian*: "Dylai chwarae fod ymhob man – yn rhan naturiol o fywyd".'

# Cefnogi Cymru chwarae-gyfeillgar

Mae cyllid o ffynonellau newydd wedi galluogi Chwarae Cymru i ddatblygu partneriaethau gyda sefydliadau eraill, ac i weithio mewn cymunedau lleol – o’u cefnogi i ddatblygu mannau chwarae newydd i ddefnyddio tiroedd ysgolion lleol ar gyfer chwarae.



## Achubwyr Lle Gwag (Space Saviours)

Prosiect dwy flynedd sy’n cael ei ariannu gan y Loteri Genedlaethol yw Achubwyr Lle Gwag, ac mae’n cael ei drefnu a’i gyflwyno gan bedair cymdeithas tai yn Ne Cymru: y Cymoedd i’r Arfordir, Bron Afon, Tai Cymunedol Tai Calon, United Welsh.

Roedd prosiect Achubwyr Lle Gwag yn cynnig gweithdai a digwyddiadau a luniwyd i helpu cymunedau lleol gael hyd i syniad cychwynnol, a sut i symud ymlaen gyda’r prosiect. Roedd tenantiaid a chymunedau mewn pum ardal yn awyddus i greu mannau gwell ar gyfer chwarae, a daethant yn bartneriaid i Chwarae Cymru. Gyda’n gilydd, rydym wedi gweithio trwy archwiliadau chwarae o’r ardal, wedi trefnu bod pensaer tirwedd yn cynhyrchu opsiynau dylunio, ac wedi cynhyrchu cynllun prosiectau llawn gyda chostau.

Fe wnaethom ni rannu ein Pecyn Cymorth Cymunedol *Datblygu a rheoli mannau chwarae* ([www.chwaraecymru.org.uk/cym/pecyncymorthcymunedol](http://www.chwaraecymru.org.uk/cym/pecyncymorthcymunedol)) fel rhan

o’r prosiect, ac mae tenantiaid a grwpiau eraill yn ei ddefnyddio i gasglu syniadau gan gymdogion ac i helpu pawb i ddeall y dyluniad arfaethedig. Ar ben hynny, buom ni’n hwyluso cyfres o weithdai byr fel rhan o’r prosiect.

Yn y Felin Wylt ym Mhen-y-bont ar Ogwr, mae’r tenantiaid wedi sicrhau cyllid ac yn awyddus i weld gwell defnydd o’r tir yn ymyl y parc, gan wneud defnydd clyfar o’r lle sydd eisoes ar gael a gwella’r ardaloedd plannu a naturiol o bosib. Rydym wrthi ar hyn o bryd yn gweithio gyda phensaer tirwedd i ddatblygu rhaglen waith.

Rydym yn gobeithio rhoi sylw i’r lle newydd mewn erthygl *Cymru – Gwlad sy’n Chwarae-Gyfeillgar* yn y dyfodol.

<http://spacesaviours.co.uk>



## Atgofion Chwarae prosiect hanes cymdeithasol Sir y Fflint

Comisiynodd Cyngor Sir y Fflint Chwarae Cymru i goladu a chyhoeddi canfyddiadau prosiect hanes cymdeithasol manwl y Cyngor – *Atgofion Chwarae Sir y Fflint 1910 – 2014*. Mae’r canfyddiadau’n tanlinellu pwysigrwydd chwarae yn awr, fel

erioed, yn natblygiad plentyndod. Dengys y canfyddiadau hefyd nad yw chwarae plant, fel cyfres unigryw o batrymau ymddygiad, mewn gwirionedd wedi newid fawr ddim yn ystod y ganrif ddiwethaf, ond bod tueddiad canfyddedig o leihau’r mannau sydd ar gael i blant chwarae ynddynt.

Roedd y prosiect yng ngofal Tîm Datblygu Chwarae’r Cyngor, a fu’n casglu ac yn cofnodi atgofion chwarae trigolion Sir y Fflint. Llanwyd holiaduron gan fwy na 600 o bobl ar draws y sir, ac roedd yr atgofion chwarae a gasglwyd yn cwmpasu’r cyfnod o’r 1920au hyd heddiw.

Ar sail atgofion y cenedlaethau iau, ac yn groes i ganfyddiadau rhai o’r oedolion hyn yn eu hymatebion, mae plant yn dal fel petaent yn gwneud yr un mathau o bethau ag erioed wrth chwarae. Mae cyfrifiaduron, y teledu a ffonau clyfar wedi hen ennill eu plwyf, ond o’u holi, mae plant yn dal i sôn am eu hawydd i chwarae yn eu cymdogaeth leol, gyda’u ffrindiau, yn eu hamser sbâr. Maen nhw’n chwilio am ansicrwydd ac yn chwarae yn yr amgylchedd sydd o’u cwmpas mewn lluo o ffyrdd gwahanol.

Roedd y prosiect yn rhan o gynllun rhanbarthol mwy gan yr elusen NEW Play, er mwyn casglu tystiolaeth am y newidiadau yng ngallu plant i chwarae sydd wedi digwydd o fewn ein cof. Cafodd y prosiect ei gefnogi hefyd gan nifer o sefydliadau cymunedol sy’n rhan o Rwydwaith Chwarae ehangach Sir y Fflint.



Mae'r llyfryn *Atgofion Chwarae Sir y Fflint 1910 – 2014*, a gynhyrchwyd gan Chwarae Cymru, ar gael i'w lawrlwytho o:

[www.siryfflint.gov.uk](http://www.siryfflint.gov.uk)



Prifysgol  
Metropolitan  
Caerdydd

## Ar agor bob awr: ymchwilio i fynediad, chwarae ac antur ar diroedd ysgolion

Mae cyllid o Ymddiriedolaeth Elusennol Stadiwm y Mileniwm wedi galluogi Chwarae Cymru i sefydlu partneriaeth gyda Phrifysgol Fetroplitan Caerdydd (Astudiaethau Addysg a Phlentyndod Cynnar) ac Ysgol Gwyddorau Cymdeithasol Prifysgol Caerdydd i ymchwilio i brosiect oedd yn peilota ein pecyn cymorth *Defnyddio tiroedd ysgolion ar gyfer chwarae y tu allan i oriau addysgu*, a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru.

Fel rhan o'u Hasesiadau Digonolrwydd Chwarae, mae rhaid i awdurdodau lleol asesu i ba raddau mae ysgolion yn darparu cyfleoedd i chwarae y tu allan i oriau ysgol. Canfu Asesiad Digonolrwydd Chwarae 2013 a'r adolygiadau Cyflwr Chwarae a gynhaliwyd gan Chwarae Cymru fod tiroedd a chyfleusterau

ysgolion yn cael eu tanddefnyddio, ac nad oedd plant yn eu defnyddio ar gyfer chwarae, ledled Cymru.

Roedd dau gyfnod i'r ymchwil. Roedd y cyntaf yn cyfuno'r cyllid a'r gefnogaeth ymarferol, yn ogystal â nodi a sefydlu cysylltiadau â thair ysgol yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg. Yn ystod y cyfnod hwn, buom hefyd yn recriwtio ac yn hyfforddi tîm y prosiect, a oedd yn cynnwys myfyrwyr oedd yn gwirfoddoli ar y rhaglen Addysg a Phlentyndod Cynnar yn y Brifysgol.

Casglwyd gwybodaeth gan staff yr ysgolion, disgyblion a thîm y prosiect. Er mwyn ymgysylltu â phlant yn yr ysgolion, defnyddiodd y myfyrwyr offer o Weithdy Chwarae Cymru ar yr Hawl i Chwarae.

**Mae pecyn y gweithdy ar gael i'w lawrlwytho o: [www.chwaraecymru.org.uk/cym/gweithdyhawlichwarae](http://www.chwaraecymru.org.uk/cym/gweithdyhawlichwarae)**

Roedd yr ail gyfnod yn cynnwys sefydlu a hwyluso rota o fyfyrwyr i hwyluso sesiynau chwarae â staff, a thîm cefnogi oedd yn cynnwys staff o'r brifysgol ac o Chwarae Cymru. Cynhaliwyd y sesiynau chwarae ar ôl ysgol am chwe wythnos yn nhymor yr haf, a chasglwyd gwybodaeth gyda'r un grwpiau ar ddiwedd y cyfnod.


Ar adeg ysgrifennu, mae'r wybodaeth yn cael ei dadansoddi ac mae ystod o themâu megis cyfathrebu a thensiynau yn dod i'r amlwg. O gyfnod cynnar iawn, bu'n eglur bod y prosiect yn

cefnogi mwy o blant i chwarae y tu allan ar ôl ysgol, gan gyfrannu hefyd at ddatblygiad proffesiynol y myfyrwyr oedd yn gwirfoddoli.

Rydym hefyd wedi canfod manteision clir i rieni. Adroddodd rhieni, yr oedd rhai ohonynt yn bresennol yn y sesiynau, gyda phicnic ambell waith, eu bod yn gosod gwerth ar amser i gymdeithasu ag eraill. Sylw unig rieni ag unig blant oedd eu bod yn gosod gwerth ar y cyfleoedd chwarae cymdeithasol roedd eu plentyn yn ei brofi heb ymyrraeth oedolyn.

Bydd Chwarae Cymru yn defnyddio'r canfyddiadau i ddiweddarau'r pecyn offer *Defnyddio tiroedd ysgol ar gyfer chwarae y tu allan i oriau addysgu*, gan ddefnyddio lleoliadau'r ysgolion yn astudiaethau achos. Cyflwynwyd y canfyddiadau mewn dwy gynhadledd academaidd, a byddwn ni'n gweithio gyda'n partneriaid prifysgol i ledaenu'r canfyddiadau cyffredinol ymhellach. Gydag amser, rydym yn gobeithio y bydd amrywiol aelodau o'r Brifysgol a Chwarae Cymru sy'n rhan o'r tîm yn ysgrifennu erthyglau o wahanol safbwyntiau i'w cyhoeddi ac yn cydweithio ymhellach ar brosiectau ymchwil yn y dyfodol.

**Mae'r pecyn offer *Defnyddio tiroedd ysgol ar gyfer chwarae y tu allan i oriau addysgu ar gael i'w lawrlwytho yn: [www.chwaraecymru.org.uk/cym/pecyncymorthysgolion](http://www.chwaraecymru.org.uk/cym/pecyncymorthysgolion)***



# Amser chwarae cyn yr etholiad



Mae etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i gael eu cynnal ym mis Mai 2016. Rydym wedi manteisio ar y cyfle i holi arweinwyr y pedair prif blaid wleidyddol yng Nghymru ynghylch eu hatgofion am chwarae a beth bydd eu plaid nhw yn ei wneud, os caiff ei hethol, i sicrhau bod Cymru'n parhau i arwain ym maes chwarae plant.

## Labour Llafur

### Prif Weinidog Cymru, Carwyn Jones Llafur Cymru

'Mae gen i brofiad ymarferol o bwysigrwydd chwarae. Mae bod ar y llawr a chwarae gyda'ch plant yn un o brofiadau mwyaf llawen bywyd. Yn ogystal â bod yn hwyl, mae hefyd yn aruthrol o bwysig ar gyfer hapusrwydd, lles a datblygiad plentyn.

*Allwch chi ddim gorbwysleisio pwysigrwydd chwarae, ac rwy'n falch o'r hyn rydym ni wedi'i gyflawni yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Rydym ni'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol.*

Mae ein Dyletswydd Chwarae, er enghraifft, yn cynyddu cyfleoedd chwarae i blant ac yn ategu pwysigrwydd chwarae ym mywyd plant. Rwy'n hapus hefyd ynghylch y Mesur Meysydd Chwarae, sy'n sicrhau bod rhaid i awdurdod lleol ymgynghori â'r gymuned leol cyn gwerthu unrhyw faes chwarae. Pwysig iawn.

Mae Cymru'n arwain y ffordd ac mae'n wych clywed cymaint o enw da sydd i'n polisiau yn y gymuned ryngwladol. Ond fyddwn ni ddim yn gorffwys ar ein rhwyfau. Mae llawer i'w wneud o hyd. Byddwn ni'n parhau i ddatblygu agenda chwarae yng Nghymru ac yn arwain y ffordd wrth sicrhau bod profiadau chwarae o ansawdd da ar gael i'n plant.'



### Andrew R. T. Davies AC Ceidwadwyr Cymru

*'Wrth dyfu i fyny ar fferm roedd digon o gyfleoedd i gael hwyl a chwarae, yn bennaf yn yr awyr agored. O reidio beic i ddringo coed, roedd bod tu allan yn rhan aruthrol bwysig o'm plentynod. Er bod y pethau wnaeth fy mrodyr a minnau siŵr o fod wedi gyrru fy rhieni i banig ambell waith, mae mwynhad a rhyddid digymar wrth fod tu allan, ac rwy'n dal i drysori'r atgofion.*

Byddai polisiau Ceidwadwyr Cymru ar gyfer pobl ifanc yn ymwneud â hybu cyfleusterau da a mynediad iddynt, boed hynny ar ffurf hamdden neu ddefnyddio'r amgylchedd naturiol, trefol neu wledig. Byddem ni'n defnyddio'r systemau cynllunio ac addysgol i ddylunio a datblygu ardaloedd cymunedol cryf sy'n diwallu anghenion chwarae cymunedau lleol ar ffurf chwaraeon a hamdden.'



**Plaid  
Cymru** | **Party of  
Wales**

## **Leanne Wood AC Plaid Cymru**

'Fe wnes i dyfu i fyny mewn cymuned glós ym Mhenygraig, yn y Rhondda. Roedd gennym ni'r plant ddigon o ddewis o dir cyhoeddus, agored lle gallem ni chwarae.

*Mae gen i lu o atgofion melys amdanaf fi a ffrindiau'n chwarae ar y mynydd, nad oedd angen cerdded ond am ychydig funudau o'r tŷ i'w gyrraedd. Roedd rhyddid ar y mynydd. Gallen ni wneud unrhyw beth yno. Bydden ni'n dringo coed, yn chwarae mig, yn adeiladu cuddfannau, yn casglu llus, yn llithro ar hambyrddau ac yn cael llawer o hwyl.*

Doedd neb ohonon ni'n gwisgo wats, a'r unig bryd bydden ni'n gwybod ei bod hi'n amser mynd adre oedd pan fyddai hi'n tywyllu neu pan fyddai ein boliau'n dechrau rwmban. Byddwn i'n aml yn dychwelyd adre â dillad wedi rhwygo, yn faw i gyd, ac ar fwy nag un achlysur, wedi torri fy ngarddwrn!

Mae Plaid Cymru'n cefnogi sut mae chwarae plant wedi cael ei ymgorffori i'r Cyfnod Sylfaen, yn offeryn i helpu'n plant ifancaf i ddysgu. Mae astudiaethau wedi dangos bod buddsoddi mewn addysg o ansawdd da yn y blynyddoedd cynnar yn talu ar ei ganfed yn ddiweddarach mewn gyrfa academaidd. Bydd cynnal y Cyfnod Sylfaen, felly, a sicrhau bod plant yn parhau i ddysgu trwy chwarae gyda goruchwyliaeth briodol, ac yn cadw'n ffit ac yn iach drwy wneud hynny, yn parhau'n rhan o'n cynlluniau a'n polisiâu. Rydym ni'n edrych i weld sut gallwn ni ehangu ac estyn addysg blynyddoedd cynnar a fyddai'n dilyn egwyddor y Cyfnod Sylfaen, sef dysgu'n ddwyieithog trwy chwarae.'

**Welsh Liberal  
Democrats**

**Democratiaid  
Rhyddfrydol Cymru**



## **Kirsty Williams AC Democratiaid Rhyddfrydol Cymru**

'Mae gen i atgofion melys amdanaf fi, fy mrawd a'm chwaer yn chwarae ar ddarn o dir garw ger y tŷ. Roedd coeden fawr yno, a siglen ynddi, a bydden ni'n treulio oriau yn cael hwyl yno.

*Roeddwn i'n falch o ymuno ag ACau eraill Democratiaid Rhyddfrydol Cymru i gefnogi'r Mesur Plant a Theuluoedd, a wnaeth gynydd aruthrol ym maes chwarae plant.*

Fodd bynnag, rwy'n credu ei bod hi bellach yn bryd i Gymru fod yn llawer mwy radical wrth ymdrin â'r mater hwn.

Rwyf wedi cymryd diddordeb mawr yn effaith cynllun 'Playing Out', a gychwynnodd ym Mryste, ond sydd ers hynny wedi ymledu ar draws Lloegr ac i'r Alban. Mae'r cynllun yn annog awdurdodau lleol i ganiatáu cau ffyrdd preswyl dros dro er mwyn darparu lle diogel i blant chwarae y tu allan. Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru wrthi'n ystyried ar hyn o bryd sut gallwn ni rymuso cymunedau lleol a helpu cynghorau i roi'r syniad gwych hwn ar waith.

Wrth gwrs, yn rhy aml mae'r rhwystrau i gyrchu chwarae yn deillio o broblemau ehangach. Mae tloedi trafnidiaeth, sy'n arbennig o amlwg mewn ardaloedd gwledig, yn rhwystr sylweddol i blant a phobl ifanc o deuluoedd incwm isel. Mae gan Democratiaid Rhyddfrydol Cymru gynllun clir i wella cludiant cyhoeddus trwy greu Awdurdodau Trafnidiaeth Teithwyr newydd, a gwella'r gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig a thlotach ochr yn ochr ag ehangu mynediad pobl ifanc yn arbennig i deithio i gyfleoedd chwarae.

Barn Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yw na ellir gwella chwarae plant yn ynsig, ond bod rhaid ei ystyried fel rhan o strategaeth economaidd gydlynus ehangach sy'n codi ein cenedl allan o dlodi ac yn gwella'r cyfleoedd i'r cenedlaethau iau. Dyna'r dull uchelgeisiol o weithredu y byddem ni'n ei fabwysiadu yn y Llywodraeth.'



# "Adnodd gwerthfawr"

Paula Harris, a fu gynt yn Swyddog Gweithredol Rhanbarthol y Tri-County Play Association, yn adolygu canllaw arfer dda Chwarae Cymru a phrosiect Teithio Ymlaen ar gyfer chwarae a'r blynyddoedd cynnar ar safleoedd Sipsiwn a Theithwyr.



Mae'r Canllaw arfer dda ar gyfer chwarae a'r blynyddoedd cynnar: Datblygu a rheoli safleoedd Sipsiwn a Theithwyr, a gyhoeddwyd gan Chwarae Cymru, mewn partneriaeth â phrosiect Teithio Ymlaen Achub y Plant Cymru, wedi cael ei ddatblygu i ymdrin â rhai o'r materion pwysicaf wrth sefydlu a chynnal darpariaeth chwarae briodol ar safleoedd Sipsiwn a Theithwyr.

Mae'r canllaw wedi'i ysgrifennu'n dda ac mae'n rhwydd cael hyd i bethau ynddo. Mae'r wybodaeth yn gryno ac yn berthnasol, ac yn edrych ar sbectrw m eang o bosibiliadau ar gyfer datblygu darpariaeth. Er ei fod wedi'i fwriadu ar gyfer y rhai sy'n gyfrifol am reoli neu ddatblygu darpariaeth newydd neu sydd eisoes yn bodoli, gallai'r cyhoeddiad hwn fod yn addas ar gyfer cynulleidfa ehangach, yn enwedig rhai sydd wedi'u cyflogi i ddarparu gwasanaeth blynyddoedd cynnar neu chwarae ar safle.

Yn ogystal â bod yn adnodd gwerthfawr wrth sefydlu darpariaeth, mae'r canllaw'n darparu detholiad o offer sy'n galluogi'r ymarferydd i ymgysylltu â'r plant, y teuluoedd



a'r gymuned ehangach wrth ganfod opsiynau ar gyfer datblygu darpariaeth ac addasrwydd y ddarpariaeth ar safleoedd unigol. Gellir addasu'r offer yn hwylus i'r gymuned y mae'r hwylusydd neu'r ymarferydd yn gweithio ynddi.

Gan fy mod wedi rheoli prosiect oedd yn gweithredu ar safle Sipsiwn a Theithwyr yn y gorffennol, ac yn annog integreiddio yn y ddarpariaeth chwarae leol, gallwn i uniaethu â'r rhwystrau y cyfeiriwyd atynt yn y canllaw, a gafodd eu

hamlygu gan blant, teuluoedd ac aelodau o'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr. Cyfeiriwyd yn gyson at le, amser a diffyg cyfleusterau fel y prif rwystrau sy'n atal plant a phobl ifanc rhag cael mynediad i ddarpariaeth chwarae yn ystod ymgynghori â gweithwyr chwarae rwyf wedi gweithio gyda nhw yn y gorffennol. Mater hawdd, felly, oedd ymgysylltu â'r materion a'r awgrymiadau yn y canllaw. Gallwn i ddychmygu y byddai'r canllawiau yn y pecyn offer yma'n gweithio'n ymarferol.

Un peth y byddwn o bosib wedi hoffi gweld mwy ohono oedd enghreifftiau go iawn o ymarfer dda, efallai trwy gynnwys mwy o astudiaethau achos. Yn bersonol, bydda i bob amser yn teimlo bod hanesion am sut a pham mae rhywbeth yn gweithio'n dda, wedi'u hadrodd gan rywun a fu'n rhan o'r profiad, yn gwneud y posibiladau datblygu yn fwy real byth.


**Byddwn i'n argymhell y cyhoeddiad hwn yn fawr. Mae'n cael ei gyflwyno mewn modd diddorol, defnyddiol, ac rwy'n teimlo bod y bartneriaeth rhwng prosiect Teithio Ymlaen a Chwarae Cymru wrth gynhyrchu'r canllaw hwn yn ymdrin mewn modd cytbwys, ystyriol â'r materion a nodwyd gan blant a theuluoedd sy'n byw mewn cymunedau Sipsiwn a Theithwyr.**

Mae'r canllaw arfer dda ar gael i'w lawrlwytho ar: [www.chwaraecymru.org.uk/cym/sipsiwnatheithwyr](http://www.chwaraecymru.org.uk/cym/sipsiwnatheithwyr)



# Lleisiau Bach yn Galw Allan

Prosiect ymchwil tair blynedd wedi'i ariannu gan y Loteri Fawr yw Lleisiau Bach yn Galw Allan (Little Voices, Shouting Out). Mae'n cael ei reoli gan Arsyllfa Cymru ar Hawliau Dynol Plant a Phobl Ifanc, a leolir yng Ngholeg y Gyfraith, Prifysgol Abertawe ac Ysgol y Gyfraith, Bangor.



Mae prosiect Lleisiau Bach yn ymgysylltu â phlant 7-11 oed mewn ysgolion cynradd ledled Cymru, gan addysgu plant a chynyddu eu hymwybyddiaeth o Gonfensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Mae plant yn dysgu am y broses ymchwil ac yn cael eu cefnogi i wneud eu hymchwil eu hunain ar bynciau cysylltiedig â'r Confensiwn. Ymhlith y pynciau maen nhw wedi'u dewis mae ansawdd eu hamgylchedd ffisegol a mynediad iddo, materion diogelwch fel diogelwch ar y rhyngwyd, smygu mewn parciau, traffig, chwarae a ffyrdd o wella gwybodaeth am hawliau dynol ymhlith pobl o bob oed.

Mae'r fethodoleg arloesol wedi datblygu dros gyfnod o wyth mlynedd, gan gychwyn yn y Ddraig Ffynici (Cynulliad Plant a Phobl Ifanc Cymru), a throsglwyddo i Brifysgol Abertawe yn 2014, lle mae bellach

yn cael ei hintegreiddio i waith ehangach yr Arsyllfa.

Mae Lleisiau Bach wedi cyflwyno adroddiad anllywodraethol, a arweiniwyd gan blant, i Bwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn, fel rhan o broses adrodd gyfredol Parti Gwladol y Deyrnas Unedig. Bu plant o ysgolion ledled Cymru yn ymwneud â chreu cwestiynau ymchwil cenedlaethol trwy lunio holiadur a gafodd ei lenwi gan blant ar draws Cymru. Buon nhw'n dadansoddi'r canlyniadau, yn gwneud argymhellion ac yn rhoi eu barn ar eu canfyddiadau.

Hwn fydd y tro cyntaf i'r Pwyllgor dderbyn adroddiad a gynhyrchwyd gan blant yn y grŵp oedran hwn yn ystod y 25 mlynedd pan fu'r Confensiwn mewn grym.

## Argymhellion a anfonwyd at Bwyllgor y CU:

- Dylai plant gael cyfle i chwarae mwy
- Dylai cynghorau, rhieni, ysgolion, cymunedau, clybiau ac athrawon greu mwy o gyfleoedd i blant ein hoed ni chwarae y tu allan ac ymuno mewn gweithgareddau
- Dylai parciau fod yn fannau croesawgar a deniadol i blant ymweld â nhw
- Gofalu bod y cyfarpar mewn parciau yn ddiogel, ac nid yn rhydlyd
- Dylai oedolion gyfyngu ar yr amser sy'n cael ei dreulio ar gonsolau gêm.

## Ystadegau o'r bennod ar chwarae

**Ydych chi'n meddwl bod oedolion yn atal plant rhag chwarae ac ymlacio?**

Dywedodd 23% 'ydw'  
Dywedodd 77% 'nac ydw'

**Beth sy'n fwyaf cyfrifol am atal plant rhag chwarae?**

Y tywydd (42%)  
Gwaith cartref (13%)  
Tasgau angenrheidiol (10%)

**Faint o amser rydych chi'n ei dreulio tu allan ar ddiwrnod arferol?**

Dywedodd 20% 1 awr  
Dywedodd 21% 2 awr  
Dywedodd 18% 3 awr  
Dywedodd 15% 4 awr  
Dywedodd 27% fwy na 4 awr y dydd

**Hoff le plant i chwarae oedd y parc (29%) a dywedodd 47% mai'r siglen oedd eu hoff gyfarpar chwarae yn y parc**

**Pan ofynnwyd 'Beth rydych chi'n hoffi chwarae gydag e gartref?' dywedodd 61% ei bod hi'n well ganddyn nhw chwarae gydag offer electronig.**

**I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r canlynol:**

Jane Williams:  
Jane.M.Williams@Swansea.ac.uk

Helen Dale:  
H.dale@swansea.ac.uk

Arwyn Roberts:  
a.b.roberts@bangor.ac.uk

# Cymru – Gwlad Chwarae-Gyfeillgar

Mae Cymru – Gwlad Chwarae-Gyfeillgar yn ymgyrch gan Chwarae Cymru i helpu i greu rhwydwaith o gefnogaeth ar gyfer chwarae ar draws Cymru. Rhannwch yr hyn sy'n digwydd yn lleol, sydd unai'n gwarchod neu'n gwahardd hawl plant i chwarae, ar dudalen yr ymgyrch ar Facebook. [on.fb.me/gwladchwaraegyfeillgar](https://www.facebook.com/gwladchwaraegyfeillgar)

# PlayPod®

## yn dod i faes chwarae ysgol Palmerston

Mark Sainsbury yn rhannu ei brofiad o gefnogi'r Playpod® cyntaf gan Children's Scrapstore Bryste i gael ei osod mewn ysgol gynradd yng Nghymru.

Dyma'r stori sy'n egluro sut cyrhaeddodd Scrapstore PlayPod® faes chwarae yn Ysgol Gynradd Palmerston, yn y Barri. Fydd e ddim yn ennill Gwobr Pulitzer, nac yn rhoi'r byd gwaith chwarae ar dân, ond fe ddysgodd yr hen weithiwr chwarae yma sawl peth yn sgîl y profiad.

Gofynnodd Joanne Jones, Swyddog Datblygu Chwarae Bro Morgannwg, a fyddwn i'n hoffi bod yn fentor ar gyfer cynllun PlayPod® Children's Scrapstore Bryste. Bu Connor, gweithiwr chwarae arall o'r Fro, a minnau yn mynychu'r hyfforddiant mentora ym Mryste cyn ymweld â'r ysgol oedd yn edrych dros y gwaith cemegol anferth yn y Barri.

Gwastadedd eang, plaen o darmac oedd yr ardal chwarae, yn llygad y gwynt oedd yn chwipio ar draws Môr Hafren – nid y lle chwarae mwyaf deniadol, ond un yr oedd yr ysgol yn benderfynol o'i wella. Roedd y gwaith cemegol wedi rhoi cyfraniad hael i ddatblygu'r ardal chwarae ac felly gofynnwyd i Children's Scrapstore Bryste ddarparu'r Scrapstore



PlayPod® cyntaf yng Nghymru.

Bu podiau chwarae yng Nghymru o'r blaen, a bu digon o gynwysyddion yn llawn sgrap sydd wedi cael llawer o wahanol

enwau. Y gwahaniaeth yw bod Children's Scrapstore Bryste wedi datblygu cynllun a brofwyd yn fanwl, gyda phodiau o wahanol feintiau wedi'u llanw a'u cyflenwi â sgrap a ddewiswyd yn ofalus, y cyfan wedi'i gefnogi gan hyfforddiant a mentoriaid i'w helpu i gychwyn yn llwyddiannus.

Dyna oedd fy ngwaith i a Connor. Fe wnaethon ni ymuno â'r hyfforddiant oedd yn cael

ei ddarparu i bawb oedd yn ymwneud â chwarae amser cinio yn yr ysgol. Y syndod cyntaf oedd faint o bobl oedd yno. Roeddwn i wedi disgwyl uchafswm o 10, ond oherwydd y nifer eithriadol o uchel o blant ag anghenion cefnogi, yr holl staff un i un, a hefyd y goruchwylwyr amser cinio, y cynorthwywyr addysgu ac eraill, roedd gan Dan, yr hyfforddwr, fwy na 20 i'w tywys drwy'r cwrs.

Yr ail syndod oedd faint o wrthwynebiad gafodd ei fynegi, a pha mor gryf ydoedd. Ar yr adeg gychwynnol hon roedd rhai pobl yn bendant yn gwrthwynebu risg. Y trydydd syndod oedd sut cafodd y dadleuon mwyaf llafar eu herio, yn ystod yr wythnosau nesaf, ac i ba raddau trôdd y gwrthwynebiad yn gefnogaeth gadarnhaol.

Y pedwerydd syndod oedd pa mor hwylus yr aeth yr wythnos gyntaf heibio, wedi i'r Scrapstore PlayPod® gael ei roi yn ei le. Roeddwn i wedi disgwyl i'r plant archwilio'r offer newydd yn egniol, ac fe wnaethon nhw, ond nid pa mor hawdd fyddai hi i'r staff addasu, ymlacio a mwynhau'r broses. Yn naturiol, roedd heriau a pheth gwrthdaro, ond roedd yr hyfforddiant wedi darparu digon o enghreifftiau 'beth petai...' i'r staff fedru troi cefn ar chwibanau ac ymddygiad llym. Roedd Connor a minnau yno i wyllo a chefnogi, a gwelwyd bod hynny'n gymorth mawr.

Digwyddodd ein hymweliadau mentora yn llai a llai aml, wrth i'r staff ddod yn fwy cyfforddus gyda'r newidiadau i'w rolau ac i'r plant barhau i dynnu pob gronyn o chwarae allan o bob darn o sgrap.

Yn y dyfodol, bydd sgrap i ailgyflenwi'r Scrapstore PlayPod® yn dod o Gymru yn hytrach na chael ei fewnforio o Fryste. Mae Re-Create Scrapstore (Cymdeithas Gwasanaethau Chwarae Caerdydd a'r Fro) eisoes wedi cytuno i gefnogi'r prosiect.

**Cadwch lygad ar agor am ragor o Scrapstore PlayPods® yng Nghymru – mae mwy ar y ffordd!**

# Scrapstore PlayPod®



## Ysgol Gynradd Palmerston:

*'Mae ein PlayPod yn llwyddiant ysgubol ac mae wedi cynyddu cyfleoedd chwarae'r plant yn aruthrol. Mae wedi gwella ansawdd chwarae'r plant, gyda llawer llai o anghytuno, a gwelir chwarae anturus, llawn dychymyg ar draws pob oed.'*

Proses gyfannol yw'r Scrapstore PlayPod® sy'n gweithio gyda chymuned gyfan yr ysgol i newid yr amgylchedd chwarae dynol a ffisegol, gan weddnewid y chwarae yn ystod amser cinio'r ysgol, a galluogi'r canlynol:

- Plant hapusach
- Nifer sylweddol lai o ddigwyddiadau a damweiniau
- Plant yn dychwelyd i'r dosbarth yn barod i ddysgu
- Staff amser cinio wedi'u grymuso
- Ymatebion cadarnhaol gan rieni.

## Mae'r broses yn cynnwys:

- Hyfforddiant a mentora
- Ymgynghoriaeth a chefnogaeth
- Deunyddiau ac adnoddau
- Strwythur a adeiladwyd at y diben

[www.playpods.co.uk](http://www.playpods.co.uk)

# Cymhwyster Rheoli Cynllun Chwarae yn ystod y Gwyliau

Ym mis Mehefin 2015, dosbarthodd Llywodraeth Cymru lythyr yn hysbysu'r sector am fesurau interim mae'n eu cymryd i ymdrin â heriau lefelau cymhwyster ar gyfer y person sydd â gofal mewn darpariaeth chwarae tymor byr yn ystod y gwyliau.

Roedd y camau a amlinellwyd yn cynnwys llacio'r gofynion ar gyfer haf 2015 er mwyn sicrhau bod y rhai oedd â chymwysterau lefel 3 mewn maes heblaw gwaith chwarae, gan gynnwys gofal plant, gwaith ieuencid ac addysgu, yn addas i fod yn bersonau â gofal cyhyd â bod ganddynt brofiad priodol o waith chwarae. Roedd y llythyr hefyd yn hysbysu y byddai cymhwyster lefel 3 newydd ar gyfer rheolwyr cynlluniau chwarae yn ystod y gwyliau yn cael ei ddarparu o hydref 2015, ac yn cael ei ychwanegu at restr SkillsActive o gymwysterau gofynnol.

Gwahoddwyd Chwarae Cymru i gynnig am y gwaith, a llwyddodd

mewn cynnig ar y cyd â Choleg Cymunedol YMCA Cymru i ddatblygu'r cymhwyster. Mae'r gwaith yn cynnwys datblygu dwy uned newydd, a fydd yn cael eu hachredu trwy Agored Cymru, a datblygu deunyddiau dysgu ac addysgu unigryw. Mae SkillsActive a Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs hefyd wedi cael eu nodi fel partneriaid allweddol, ac ymgynghorir â hwy fel rhan o grŵp llywio ynghylch cynnwys y cymhwyster newydd.

Mae Chwarae Cymru yn croesawu'r datblygiad hwn sy'n ymdrin â rhai o'r heriau mae darpariaeth chwarae gymunedol, tymor byr, yn aml yn eu profi wrth sicrhau bod rheolwyr

cynlluniau chwarae profiadol yn bodloni'r gofynion rheoliadol o ran cymwysterau gwaith chwarae. Rydym ni'n gwybod bod cyfran helaeth o'r cynlluniau chwarae yn ystod y gwyliau naill ai wedi cau neu wedi newid i gyfnodau llai na dwy awr er mwyn arbed eu staff, sydd â chymwysterau a phrofiad arall perthnasol, rhag gorfod cwblhau cymhwyster gwaith chwarae lefel 3 llawn.

Cyngor Llywodraeth Cymru yw bod y cymhwyster Gwobr Rheoli Cynllun Chwarae yn ystod y Gwyliau yn fesur interim o fis Medi 2015 tan fis Medi 2018, ac y bydd cymhwyster gwaith chwarae lefel 3 llawn yn ofynnol wedi hynny.

## Adolygiad Safonau Gwaith Chwarae

Mae SkillsActive (Cyngor Sgiliau Sector Hamdden Egnïol a Lles) yn cynnal grwpiau ffocws ym mhedair gwlad y Deyrnas Unedig er mwyn adolygu rhai o'r newidiadau allweddol drafft i'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) ar gyfer gwaith chwarae. Mae'r gwaith hwn yn dilyn cynnig llwyddiannus i Gomisiwn Cyflogaeth a Sgiliau'r Deyrnas Unedig.



Mae Chwarae Cymru, sefydliadau cenedlaethol eraill ac arbenigwyr gwaith chwarae o'r pedair gwlad yn ymwneud â'r adolygiad.

Gwahoddir cyflogwyr a darparwyr hyfforddiant i adolygu a thrafod rhai o'r newidiadau allweddol a gynigiwyd, er mwyn sicrhau eu bod yn ymateb i anghenion cyflogwyr. Bydd y grwpiau ffocws hefyd yn trafod unrhyw newidiadau drafft dadleuol, i sicrhau eu bod yn adlewyrchu ymarfer cyfredol.

**Bydd dau ddigwyddiad grŵp ffocws yn cael eu cynnal yng Nghymru:**

### De Cymru

29 Medi 2015 – Coleg Caerdydd a'r Fro, Heol Dumballs, Caerdydd

### Gogledd Cymru

5 Hydref 2015 – Canolfan Lôn Hen Ysgol, Rhodfa'r Eglwys, Llandudno

Bydd y digwyddiadau'n gyfle i'r rhai sy'n bresennol ffurfio a dylanwadu ar yr NOS newydd, yn ogystal â rhwydweithio gyda chyflogwyr a darparwyr hyfforddiant.

Cyfyngir y niferoedd i 25 ym mhob digwyddiad, felly archebwch eich lle am ddim yn gynnar. I gadw lle, anfonwch e-bost i: [tracey.james@skillsactive.com](mailto:tracey.james@skillsactive.com)

**I gael rhagor o wybodaeth am y digwyddiadau yng Nghymru, anfonwch e-bost i: [gweithlu@chwaraecymru.org.uk](mailto:gweithlu@chwaraecymru.org.uk)**

## Newyddion P<sup>3</sup>

Mae Chwarae Cymru bellach yn gweithio mewn partneriaeth â Choleg Cymunedol YMCA Cymru i gyflwyno cymwysterau Gwaith Chwarae: Rhoi Egwyddorion ar Waith (P<sup>3</sup>) ledled Cymru.

Er bod Chwarae Cymru yn parhau'n Ganolfan gymeradwy ar gyfer trosglwyddo P<sup>3</sup>, er mwyn sicrhau cynaliadwyedd y cymhwyster yn y dyfodol, rydym yn meithrin y bartneriaeth lwyddiannus sydd eisoes yn bodoli gyda'r Coleg.

Mae'r Coleg mewn sefyllfa dda i gyflwyno cymwysterau gwaith chwarae yn sgîl ei brofiad o ddarparu cymwysterau gwaith ieuencid a datblygu cymunedol mewn lleoliadau cymunedol. Mewn arolygiad diweddar gan y Llywodraeth dyfarwyd graddau digymar i'r Coleg o fewn y sector, a chafodd y graddau uchaf o blith holl ddarparwyr Dysgu Cymunedol i Oedolion Cymru.

Mae Chwarae Cymru yn hyderus y bydd sgiliau a gwybodaeth tîm staff y Coleg yn sicrhau gwelliannau yn y gefnogaeth i ddysgwyr, hyfforddwyr ac aseswyr P<sup>3</sup>.



# Cyfweliad gyda Gillian Wilde



Mae ein cyfweliad gyda Gillian Wilde, Rheolwr Darpariaeth Coleg Cymunedol YMCA Cymru, yn esbonio mwy am fanteision y bartneriaeth newydd rhwng y Coleg a Chwarae Cymru.

## Allwch chi ddweud wrthym ni'n gryno am Goleg Cymunedol YMCA Cymru a'r cyrsiau rydych chi'n eu cynnal ar hyn o bryd?

Darparwr Cymru gyfan yw Coleg Cymunedol YMCA Cymru, ac mae'n darparu nifer o gyrsiau arbenigol. Rydym ni'n gweithio gydag awdurdodau lleol a sefydliadau partner fel Chwarae Cymru i helpu i gefnogi'r gwaith o hyfforddi a datblygu eu gweithlu. Mae rhan fawr o'n gwaith yn ymwneud â'r gwasanaeth prawf a dysgu cymunedol. Rydym ni'n darparu cymwysterau dysgu ac addysgu ac yn arbenigo mewn gwaith ieuencid, datblygiad cymunedol a chymwysterau gwaith chwarae.

## Pam mae'r Coleg mewn sefyllfa dda i fod yn brif ganolfan ar gyfer P<sup>3</sup>?

Mae gennym eisoes strwythur sefydledig o weithio gyda sectorau arbenigol fel darparwyr gwaith chwarae, sy'n cefnogi datblygiad proffesiynol eu gweithlu. Er enghraifft, rydym ni'n brif ddarparwr cymwysterau gwaith ieuencid ar lefelau 2 a 3; rydym hefyd yn cynnig lefelau 4 a 5. Yn sgîl ein model partneriaeth rydym yn gallu darparu'r dysgu yn y gymuned, fel ei fod yn hygyrch i ddysgwyr a chyflogwyr. Mae'r Coleg yn brofiadol ym maes darparu cyrsiau gyda modelau cyflwyno hyblyg sy'n addas ar gyfer y dysgwr a'r cyflogwr; mae gennym ddarpariaeth ledled Cymru a staff hynod gymwysedig.

## Pa gefnogaeth ychwanegol sydd ar gael ar gyfer dysgwyr P<sup>3</sup> trwy'r Coleg?

Yn achos ein holl ddysgwyr sy'n cyrchu cymwysterau rydym ni'n cynnal asesiad llythrennedd a rhifedd cychwynnol i ganfod a oes gan rai dysgwyr anghenion sgiliau hanfodol er mwyn eu galluogi i gwblhau'r tasgau a llwyddo yn y cwrs. Mae gennym hefyd adnoddau ychwanegol y gallwn eu cynnig i ddysgwyr, er enghraifft ar gwrs P<sup>3</sup> sy'n cael ei gynnal yn y De ar hyn o bryd, mae gennym gyfieithydd laith Arwyddion Prydain (BSL) yn cefnogi dysgwr er mwyn ei galluogi hi i gyfranogi'n llawn yn y cwrs. Gallwn gynnig arweiniad a chefnogaeth i ddysgwyr ynghylch symud ymlaen ar ôl hyfforddiant P<sup>3</sup>, byddant o bosib am fynd ymlaen i wneud gwaith ieuencid, neu gyflawni cymwysterau dysgu ac addysgu. Rydym hefyd yn cynnig cyrsiau Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) ehangach ar gyfer y rhai sydd wedi cymhwyso.

## Pa gefnogaeth ychwanegol sydd ar gael i hyfforddwyr ac aseswyr P<sup>3</sup> trwy'r Coleg?

Mae staff y Coleg yn cefnogi tiwtoriaid ar eu diwrnod cyflwyno cyntaf, ac yn eu harsylwi yn ystod y cwrs. Diben hyn yw cynnig cyngor, cefnogaeth ac arweiniad, yn ogystal â dathlu'r hyn mae hyfforddwyr yn ei wneud yn dda. Mae'r Coleg yn cynnig pecynnau hyfforddi DPP yn fewnol ar gyfer pob tiwtor ac aseswr. Er enghraifft, petai tiwtor neu aseswr am fynychu cynhadledd gwaith chwarae fel rhan o'u DPP, gallent wneud cais am gyfraniad at y gost. Neu petaent am brynu'r llyfrau diweddaraf i gasglu rhagor o wybodaeth, gallent gyrchu'r cyllid DPP. Rydym ni'n cynnal diwrnodau

rheolaidd i diwtoriaid ac aseswyr ledled Cymru – bydd y rhain ar gael yn fuan i hyfforddwyr P<sup>3</sup>.

## Dywedwch wrthym ni am y newidiadau arfaethedig i Goleg Cymunedol YMCA Cymru a'r cyfuno â Chymdeithas Addysg y Gweithwyr Cymru?

Cyfunwyd Coleg Cymunedol YMCA Cymru a Chymdeithas Addysg y Gweithwyr (WEA) Cymru ar 1 Awst. Yn y cyfnod pontio, ni fydd partneriaid yn gweld llawer o wahaniaeth, ac mae hynny'n arbennig o wir am ein partneriaid gwaith chwarae, gan fod hwn yn faes newydd i'r Coleg a'r sefydliad newydd cyfun. Bydd y ddarpariaeth gwaith chwarae yn parhau i gael ei rheoli gan fy nhîm i, ochr yn ochr â gwaith ieuencid a chymuned.

## Sut rydych chi'n gweld darpariaeth cymwysterau P<sup>3</sup> yn esblygu yn ystod y blynyddoedd nesaf?

Nawr bod y sefydliad yn fwy o faint, bydd cyfleoedd i gynnig cyrsiau P<sup>3</sup> a ariannir yn llwyr neu'n rhannol ledled Cymru, fel bod y cyrsiau hynny'n fwy hygyrch. Hoffwn i weld y cyrsiau P<sup>3</sup> yn ennill eu plwyf i'r un graddau â'r cyrsiau gwaith ieuencid ledled Cymru – rydym ni'n falch bod Chwarae Cymru wedi ein cymeradwyo i ddarparu'r cyrsiau P<sup>3</sup>. Er mwyn sicrhau darpariaeth broffesiynol o ansawdd i'r sector, mae'n bwysig bod Chwarae Cymru yn ymwneud â diwrnodau Sicrhau Ansawdd Mewnol (IOA), tiwtoriaid a safoni Colegau, er mwyn sicrhau dull cyson o weithredu.

[www.ymca-wales.ac.uk](http://www.ymca-wales.ac.uk)

# Ysbryd 2015

Pwysigrwydd cymryd risgiau

13 Hydref 2015

Holiday Inn, Caerdydd

Mae ein cynhadledd flynyddol, Ysbryd yn cynnig diwrnod yn llawn dop o areithiau ysbrydoledig, trafodaethau bywiog a gweithdai ar gyfer unrhyw un sydd â diddordeb mewn neu sy'n gyfrifol am chwarae plant.

PRISIAU  
CYFRANOGWYR

Aelodau Chwarae Cymru - £95

Ddim yn aelodau - £105

Yn cynnwys cinio a  
the neu goffi



## Siaradwyr gwadd

Eleni byddwn yn croesawu'r siaradwyr gwadd canlynol:

Judith Hackitt – Cadeirydd Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch

Robin Sutcliffe – Cadeirydd y Play Safety Forum

Dr Mike Shooter – cyn-Lywydd Coleg Brenhinol y Seiciatryddion

Professor David Ball – Prifysgol Middlesex, a chyd-awdur Rheoli Risg mewn Darpariaeth Chwarae: Canllaw Gweithredu.

## Gweithdai

Yn ystod y dydd bydd cyfle i gymryd rhan mewn dwy sesiwn gweithdy.

*Prosiect 'Scrapstore Playpod': trawsnewid amser chwarae yn yr ysgol* – Kirsty Wilson a Mark Sainsbury

*Dewch inni I GYD gymryd RISG* – Ally John

*Tirlunio Ardaloedd Chwarae Cymunedol* – Gill Byrne

*Amgylchedd chwarae cyfoethocach* – Simon Bazley

*Pam fod plant angen cymryd risg* – Ben Tawil

*Gweithredu asesu risg-budd dynamig ble fo plant yn chwarae* – Mike Barclay

## Panel trafod

Daw'r gynhadledd i ben â thrafodaeth gan banel a fydd yn cynnwys nifer o siaradwyr amlwg a gweithwyr proffesiynol blaenllaw ym myd chwarae. Bydd y panel yn ateb cwestiynau gan y cynrychiolwyr ynghylch risg wrth chwarae.

I archebu lle ewch at: [www.chwaraecymru.org.uk/cym/ysbryd2015](http://www.chwaraecymru.org.uk/cym/ysbryd2015)